CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

CYFARFOD CHWARTEROL – IONAWR / CHWEFROR / MAWRTH 2020

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

15 Mai 2020

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

4 GRANTIAU CYHOEDDI

GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

4.1 Sefyllfa Ariannol 2019/20
Cwblhawyd y gwaith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn hwylus.

4.2 Rhaglen 2019/20
Cyhoeddwyd y cyfan o lyfrau rhaglen 2019/20 cyn diwedd y flwyddyn ariannol, heblaw am un.

4.3 Grantiau Rhaglen 2020/21
Ystyriodd y Panel Grantiau geisiadau grant am raglenni cyhoeddi 2020/21 gan chwech cyhoeddwr, a dyfarnwyd grantiau gwerth £331,058 am 133 o lyfrau newydd (roedd elfen o'r grant hefyd ar gyfer adargraffiadau yn ôl yr arfer). Cafwyd cais pellach i ystyried lefelau'r grantiau i gyhoeddwyr rhaglen.

4.4 Cefnogi awduron a chyhoeddwyr
Cefnogodd Panel Grantiau mis Mawrth 6 cais A-Awdur gyda grantiau gwerth £39,000 a 18 cais A-Gweledol gyda grantiau gwerth £53,230. Yn ogystal, cefnogwyd 20 o geisiadau am grantiau cynhyrchu unigol gyda grantiau gwerth £41,805.

4.5 Trefn y Panelau Grantiau
Bydd y Panel Grantiau llawn nesaf yn cael ei gynnal dros Zoom ym mis Mehefin. Penderfynwyd, yn ogystal, cynnal cyfarfod rhithiol unwaith y mis i brosesu ceisiadau am grantiau creadigol. Bydd hyn yn hwyluso taliadau i awduron ac artistiaid llawrydd ac yn cynnal y llif o lyfrau newydd fydd ar gael i gyhoeddwyr pan fydd y sefyllfa'n gwella. Bydd y cyntaf yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher 13 Mai.

4.6 Sefyllfa'r Cyhoeddwyr
Cytunodd Panel mis Mawrth ar gamau strategol i ddefnyddio'r grant a adawyd gan [Gwybodaeth masnachol] i (1) gefnogi cyhoeddwyr sy'n bod eisoes a diogelu'r nifer o lyfrau a gyhoeddir a (2) datblygu cyhoeddwyr newydd a diogelu'r nifer o gyhoeddwyr. *Bydd yn edrych eto ar hyn yn sgil effeithiau'r Pandemig, ym mhanel mis Mehefin*.

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

4.8 Mesur Cyrhaeddiad Digidol Cylchgronau Cymraeg a Saesneg
Oherwydd y Pandemig, ni chafwyd cyfarfod o'r cyhoeddwyr i drafod y Matrix, ond penderfynwyd bwrw ymlaen â'r gwaith a'i weithredu'n fuan.

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

4.11 Ceisiadau am Grantiau

- *Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am Grantiau Llyfrau Llenyddol Unigol oedd 24 Ebrill a derbyniwyd 11 cais*.
- *Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Panel Grantiau Cyhoeddi (Saesneg) drwy gyfrwng Zoom ym mis Gorffennaf 2020, gyda'r dyddiad i'w gadarnhau.*
- Cefnogwyd 11 swydd (6 golygyddol, 5 marchnata) drwy'r cynllun Swyddi a Gefnogir.

4.12 Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru: Cyllid Ychwanegol

- *Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau eraill yw 15 Mai. Rhoddir ystyriaeth i geisiadau am Grantiau Marchnata a Grantiau Gweithgareddau Marchnata Bach ym Mhanel Grantiau Gorffennaf 2020.*
- *Cyhoeddir rhifyn arbennig o gylchgrawn The Bookseller fydd yn canolbwyntio ar Gymru ar amser ar ddiwedd mis Mai 2020.*

6 TARGEDAU

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

Dylid nodi bod penderfyniad Adran Addysg Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn adnoddau print i ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'n trosiant. Roedd hefyd wedi ychwanegu chwistrelliad sylweddol o arian parod i'r llyfrwerthwyr ar amser o angen mawr oherwydd cau siopau yn annisgwyl ym mis Mawrth.

Mae nifer y teitlau a gefnogir gan yr Adran Olygyddol a'r Adran Ddylunio yn fras ar darged, sy'n braf gan fod y niferoedd terfynol yn ddibynnol ar y gwaith a ddaw gan y cyhoeddwyr nad oes gennym lawer o reolaeth drostynt.

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

Mae'r grantiau cyhoeddi yn perfformio'n fras yn unol â'r disgwyliadau ond mae'r cyhoeddwyr yn parhau i adrodd pwysau ar eu helw oherwydd y costau cynyddol, a disgwylir y bydd y bydd angen adolygu'r gefnogaeth fesul teitl yn enwedig yn wyneb effaith COVID-19.

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

10 ERAILL

10.4 Darllen yn well – Llyfrau ar Bresgripsiwn

Mae 19 o'r llyfrau dementia wedi eu cyhoeddi a'u dosbarthu i lyfrgelloedd. Mae 15 o'r llyfrau iechyd meddwl wedi eu cyhoeddi a 4 arall yn barod i'w argraffu (*roedd yn bosib parhau gyda'r gwaith golygu a dylunio ond bu rhaid gohirio'r peth o'r gwaith argraffu yn ail hanner mis Mawrth oherwydd y sefyllfa COVID-19*). *Roedd angen gohirio dosbarthu'r llyfrau ond bydd hyn yn digwydd wrth i'r llyfrgelloedd dechrau ail-agor. Mae'r llyfr olaf ar y rhestr yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd.*

Bu'r Cyngor Llyfrau yn arwain ymgyrch hysbysebu a hyrwyddo ar gyfer y llyfrau dementia rhwng Ionawr a Mawrth. Ymddangosodd hysbysebion yn Golwg 360, Golwg, Barn, Y Wawr, Wales Arts Review, Nation.Cymru, Western Mail ac Aberystwyth Ego.

Cynhaliwyd Darlith Diwrnod y Llyfr ar 5 Mawrth yn Venue Cymru yn hyrwyddo'r cynllun. Bu panel, wedi ei gadeirio gan Bethan Mair, yn trafod darllen a iechyd meddwl a sut all lyfrau fod yn gymorth. Roedd Manon Elin James o Meddwl.org, y Prif Lyfrgellydd Bethan Hughes, yr awduron Sharon Marie Jones ac Angharad Tomos, a Dr

Harri Pritchard yn cymryd rhan. Cafwyd cryn dipyn o sylw yn y wasg gyda eitemau ar Prynhawn Da ar S4C a Stiwdio ar BBC Radio Cymru, erthyglau yn Golwg, Y Cymro ac mewn papurau bro.

[Mae’r wybodaeth wedi’i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

ATODIAD / APPENDIX 1

Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)			
Llyfrau			
Nifer y teitlau a gyhoeddir	231	215	215
Nifer y teitlau Cynllun A (Awduron) a gyhoeddir	15	20	20
Nifer y teitlau Cynllun A (Deunydd Gweledol) a gyhoeddir	38	12	40
Cyfartaledd gwerthiant	831	1,000 ar ôl 18 mis (ar gyfer llyfrau newydd y cyhoeddwyr rhaglen a gyhoeddwyd yn 2018/19)	846
Nifer y swyddi golygyddol a gefnogir yn y tai cyhoeddi	9.6	10	10.3
Cylchgronau			
Cyfanswm y cylchgronau a gyhoeddir	15	15	15

	2018/19 Cyflawni	**2019/20 Targed**	**2019/20 Cyflawni**
Cyfartaledd gwerthiant y cylchgronau	Gwybodaeth ar gael ym mis Medi 2019	2,850 – Hamdden 2,220 – Newyddiaduraeth 1,650 – Plant 600 – Llenyddol a Diwylliannol	Gwybodaeth ar gael ym mis Medi 2020
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	98%	98%	95.5%
Grantiau Cyhoeddi (Saesneg)			

Llyfrau			
Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir	80	75	81
Nifer teitlau blaendal awdur a gyhoeddir	13 (i'w cyhoeddi) (+ 15 wedi'u comisiynu)	15 (i'w cyhoeddi) (+ 10 wedi'u comisiynu)	15 (i'w cyhoeddi) (+ 24 wedi'u comisiynu)
Cyfartaledd gwerthiant teitlau blaendal awdur	3,158	2,500	1,500
Grantiau Marchnata	17	20	14
Cyfartaledd gwerthiant teitlau grant marchnata	2,488	2,500	2,450
Cylchgronau			
Nifer cylchgronau (neu atodiadau) a gyhoeddir	5	5	6
Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau	Print: 1,420 / Gwefan: 17,663 Print: 570 / Gwefan: 8,149 Print: 295 / Gwefan: dim data *	1,000 – cylchgronau cyffredinol 500 – cylchgronau llenyddol aml-ffocws 400 – cylchgronau llenyddol ffocws unigol	Print: 1,413 / Gwefan: 59,865 ** Print: 512 / Gwefan: 11,408 Print: 292 / Gwefan: 3,525
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	95%	95%	95%

(* gwefan: cyfartaledd blynyddol ymwelwyr unigol misol)

(** annual average, quarterly: Planet, WAR, Nation.Cymru) 5,500 (annual average: Click on Wales)

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

	CYLLIDEB/ BUDGET	GWARIANT/ SPENDING	Gwahaniaeth/ Variance
GRANT CYHOEDDI/ *PUBLISHING GRANTS*	**12 mis**	**12 mis**	**12 mis**
	Ebrill-Mawrth	Ebrill-Mawrth	Ebrill-Mawrth
Cymraeg / *Welsh-language*	£	£	£
Grantiau tuag at lyfrau / *Grants towards books*	455,710	463,705	(7,995)
Grantiau awduron a darlunwyr / *Authors and illustrators' grants*	344,650	325,828	18,822
Cynllun penodiadau a hyfforddiant / *Appointments and training scheme*	218,364	214,184	4,180
Grantiau tuag at gylchgronau / *Grants towards magazines*	380,500	386,340	5,840
Cyflawni Argymelliadau Siwan Rosser/ *Completing recommendations*	5,000	5,046	(46)
Deunydd electroneg/ Electronig publications	1,250	-	1,250
Cynllun Dysgwyr/ *Learners Scheme*	-	666	(666)
Grantiau tuag at farchnata / *Grants towards marketing*	36,500	35,250	1,250
Taliad perfformiad/ *Performance payment*	10,000	10,000	-
Grant Siopau/ *Shop Grants*	24,797	26,549	(1,752)
[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall / Information redacted as not captured by this request].			
CYFANSWM GRANTIAU CYMRAEG / TOTAL WELSH GRANTS	1,676,771	1,678,057	(1,286)
Saesneg / *English-language*			
Grantiau tuag at lyfrau / *Grants towards books*	297,102	291,765	5,337
Grantiau tuag at gylchgronau / *Grants towards magazines*	184,500	205,985	(21,485)
Grantiau tuag at farchnata / *Grants towards marketing*	45,177	47,580	(2,403)
Cynllun penodiadau / *Appointments scheme*	88,550	88,550	-
Grantiau i Awduron / *Authors' grants*	54,000	57,117	(3,117)
Clasuron / *Classics*	10,000	4,143	5,857
Hyfforddiant / *Training*	5,000	3,763	1,237
Mudiad Cyhoeddwyr/ *Publisher Association*	3,000	-	3,000
CYFANSWM GRANTIAU SAESNEG / TOTAL ENGLISH GRANTS	687,329	698,903	(11,574)
Costau gweinyddol / *Administrative costs*	184,000	171,140	12,860
CYFANSWM GRANT CYHOEDDI/ TOTAL GRANTS	2,548,000	2,548,000	-
GRANT DDERBYNIWYD		2,548,000	
Gwario mwy na dderbyniwyd/ Spent more than received		-	